

ARCHIF S4C

Mae archif S4C yn unigryw ac yn arbennig iawn. S4C yw'r unig ddarlledwr Cymraeg yn y byd ac mae'r archif yn gartref i'r holl ddeunydd Cymraeg a ddarlledwyd ers mis Tachwedd 1982¹, fwy neu lai - dros 100,000 o dapiau ffisegol a thua 52,000 o oriau o raglennu.

Ni cheir cyfoeth mor gynhwysfawr ac amrywiol â hyn o raglenni dogfen, cyfweiliadau, rhaglenni cerddorol, gwleidyddol a diwylliannol a rhaglenni i blant wedi'u ffilmio yng Nghymru ac am Gymru, drwy lygaid pobl Cymru a'r cyfan yn ein mamiaith, yn yr un man arall.

Fel S4C ei hun, mae'r archif yn rhan hollbwysig o hyrwyddo a chynnal yr iaith a'n ffordd o fyw yng Nghymru. Prin yw'r lleoedd y gellir mynd iddynt i ddarganfod am orffennol, presennol a dyfodol Cymru ac nid oes yr un man arall y gallwch wneud hynny mewn ffordd mor drylwyr â hyn gan ddefnyddio rhaglennu Cymraeg.

Mae'r cyfrifoldeb dros ddiogelu archif S4C yn un o flaenoriaethau pennaf S4C. Yn ogystal â'r flaenoriaeth hon i ddiogelu'r archif, mae S4C yr un mor awyddus i sicrhau bod yr archif ar gael yn hawdd yng Nghymru a thu hwnt.

Gwyddom fod llawer o bobl yn awyddus i ddefnyddio cynnwys S4C mewn sawl ffordd wahanol. Os hoffech gael gafael ar gynnwys S4C a'i ddefnyddio (cynnwys o'r gorffennol a chynnwys presennol), mae popeth sydd angen i chi ei wybod yma.

OS HOFFECH:-

1. Gael gwybod beth mae S4C yn ei wneud i ddiogelu'r archif ar gyfer y dyfodol
[CLICIWCH YMA](#)
2. Wybodaeth am sut y gallwch gael gafael ar gynnwys archif S4C a'i ddefnyddio at ddibenion ymchwil
[CLICIWCH YMA](#)
3. Wybodaeth am sut y gallwch ddefnyddio cynnwys archif S4C at ddibenion addysgol
[CLICIWCH YMA](#)
4. Wybodaeth am sut y gallwch ddefnyddio cynnwys archif S4C at ddibenion masnachol
[CLICIWCH YMA](#)
5. Wybodaeth am sut y gallwch ddefnyddio cynnwys archif S4C at ddibenion anfasnachol
[CLICIWCH YMA](#)
6. Wybodaeth am sut i gael gafael ar Raglenni a Chynnwys presennol S4C
[CLICIWCH YMA](#)

Noder yn anffodus na all S4C ddarparu copïau preifat o'i rhaglenni at ddefnydd personol oherwydd y gost a'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â hynny.

¹ Caiff rhaglenni'r BBC a wnaed yn Gymraeg cyn creu S4C a rhaglenni a gynhyrchwyd ar gyfer S4C gan BBC Cymru eu cadw yn archif y BBC.

BETH MAE S4C YN EI WNEUD I DDIOGELU'R ARCHIF AR GYFER Y DYFODOL?

Y broblem fwyaf sy'n wynebu pob archif yw'r ffaith nad yw ei chynnwys yn para am byth. Mae diogelu cynnwys yn frwydr barhaus yn erbyn dirywiad a thechnoleg gyfnewidiol. Mae angen newid fformatau er mwyn sicrhau y gellir gwyllo a darlledu rhaglenni o hyd.

Mae S4C yn ystyried digideiddio ei harchif er mwyn i ni gadw ein rhaglenni ar ffurf ffeiliau digidol (yn yr un ffordd ag y byddech o bosibl yn cadw ffotograffau neu ddogfennau Word gartref).

Mae digideiddio yn ffordd ardderchog o amddiffyn archif yn erbyn newidiadau yn y dyfodol gan sicrhau ei bod yn hyblyg ac yn hawdd i'w rhannu gydag eraill.

Fodd bynnag, dim ond rhan o'r ateb yw'r broses ddigideiddio. Er mwyn i S4C allu rhannu ei harchif gyda chi, mae angen i S4C hefyd ymateb i rai heriau eraill. Ar hyn o bryd, mae'r costau cyfun sy'n gysylltiedig â:-

- a. trawsnewid ein rhaglenni i fformat hawdd ei ddefnyddio (digideiddio);
- b. rhoi system gyflwyno ar waith (e.e. gwefan) a all gyflwyno ein harchif gyfan i chi;
- c. clirio'r hawliau sy'n gysylltiedig â'n rhaglenni mewn ffordd syml a chosteffeithiol (i gael rhagor o wybodaeth am glirio hawliau - [CLICIWCH YMA](#))

yn golygu na all S4C baratoi'r archif i'w chyflwyno i bawb nawr, fel yr hoffem ei wneud. Mae S4C yn gweithio'n galed i ddod o hyd i atebion i'r cwestiynau hyn.

Yn y cyfamser, mae S4C yn edrych yn barhaus am ffyrdd newydd o gyflwyno ei rhaglenni presennol a'i rhaglenni archif i chi mewn ffordd mor hawdd â phosibl.

OS HOFFECH:-

1. Wybodaeth am sut y gallwch gael gafael ar gynnwys archif S4C a'i ddefnyddio at ddibenion ymchwil
[CLICIWCH YMA](#)
2. Wybodaeth am sut y gallwch ddefnyddio cynnwys archif S4C at ddibenion addysgol
[CLICIWCH YMA](#)
3. Wybodaeth am sut y gallwch ddefnyddio cynnwys archif S4C at ddibenion masnachol
[CLICIWCH YMA](#)
4. Wybodaeth am sut y gallwch ddefnyddio cynnwys archif S4C at ddibenion anfasnachol
[CLICIWCH YMA](#)
5. Gael gwybod sut i wyllo rhaglenni presennol S4C
[CLICIWCH YMA](#)

CLIRIO HAWLIAU

Mae llawer o wahanol hawliau yn gysylltiedig â rhaglenni teledu ac mae llawer o wahanol ddeiliaid hawliau yn berchen ar yr hawliau hynny. Gall actorion, awduron sgript, perchennogion clipiau archif, cerddorion, cynhyrchwyr ac eraill fod yn berchen ar hawlfraint (neu hawliau eraill) mewn perthynas â rhaglen deledu. Mae S4C wedi'i thrwyddedu gan ddeiliaid hawliau i wneud rhai pethau penodol mewn perthynas â rhaglenni teledu ond ni all wneud unrhyw beth y mynna â'r rhaglen. Byddai talu ymlaen llaw am yr holl hawliau sydd eu hangen i gyflwyno archif gyfan S4C at bob defnydd

posibl yn ddrud iawn (yn enwedig os na chaiff yr holl ddefnyddiau hynny eu gweithredu'n llawn). Gall y gwaith sydd ei angen mewn perthynas â chlirio hawliau hefyd fod yn gostus iawn. Gan ddibynnu ar y math o raglen, gall clirio hawliau ar gyfer rhaglen deledu gynnwys gwaith ymchwil a gall fod yn broses lafurus iawn.

CLICIWCH YMA I DDARLLEN GWYBODAETH FANYLACH AM SUT I GLIRIO HAWLIAU RHAGLENNI

SUT I GAEL GAFAEL AR GYNNWYS S4C A'I DDEFNYDDIO AT DDIBENION YMCHWIL

1. Rhaglenni S4C yn Archif Sgrîn a Sain Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

Cedwir casgliad pwysig o rai o raglenni a ffilmiau cynnar S4C i'w defnyddio yn y dyfodol yn yr Archif Sgrîn a Sain Genedlaethol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gael gafael ar gynnwys S4C a gedwir gan y Llyfrgell, ewch i:-

<http://www.archif.com>

neu ffoniwch:-

01970 632828

Mae'r archif yn cadw archif o recordiadau oddi ar yr awyr ar gyfer y cyfnod rhwng 1985 a 2007, ar gyfer y gwasanaethau analog a digidol perthnasol a oedd yn gweithredu yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r recordiadau VHS yn dogfennu holl allbwn S4C yn ystod y cyfnod hwn ac yn cynnwys rhaglenni a darllediadau cyswllt yn ogystal â'r hysbysebion.

SUT I GAEL GAFAEL AR GYNNWYS S4C A'I DDEFNYDDIO AT DDIBENION ADDYSGOL

1. Gwneud copiâu o raglenni S4C at ddefnydd addysgol

Mae gan nifer fawr o ysgolion, prifysgolion a Cholegau AB yng Nghymru a Lloegr drwydded gan yr Asiantaeth Recordiadau Addysgol (Trwydded ERA). Gall ysgolion yng Nghymru gysylltu'n uniongyrchol â'r Asiantaeth, trwy era@era.org.uk, neu'r Ganolfan Addysg a Rheoli Cyllid (CEFM), trwy era@cefm.co.uk, sy'n anfon trwyddedau i sefydliadau ar ran yr Asiantaeth ac yn gyfrifol am linell gymorth i ysgolion (01494 836 235). Caiff sefydliadau AB ac AU eu trwyddedu'n uniongyrchol gan yr Asiantaeth, felly cysylltwch â'r Asiantaeth ar 020 7837 3222 os bydd gennych unrhyw ymholiadau.

Os oes gan eich sefydliad addysgol drwydded, mae ganddo'r hawl i recordio rhaglenni a ddarlledir gan S4C ac i gadw copiâu o'r recordiadau hynny i'w defnyddio fel adnoddau addysgol. Gallwch hefyd ddefnyddio'r drwydded i sicrhau'r hawliau i wyllo rhaglenni presennol a rhaglenni diweddar drwy wefan ar-alw S4C (http://www.s4c.cymru/clic/c_index.shtml) ac iPlayer.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â thrwydded ERA, cysylltwch â'r Asiantaeth a fydd yn fwy na pharod i ateb unrhyw ymholiadau a all fod gennych.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:-

<https://www.era.org.uk>

2. Cael Gafael ar Raglenni a Datrysiaidau Storio i Sefydliadau Addysg

Mae nifer o ddarparwyr technoleg masnachol yn y farchnad sy'n trwyddedu meddalwedd a chaledwedd i alluogi ysgolion, sefydliadau addysg uwch a phellach i recordio rhaglenni a gwylio rhaglenni wedi'u recordio ymlaen llaw i'w defnyddio ym maes addysg.

Mae pob datrysiad technoleg yn cynnig gwahanol nodweddion ac ar adeg ysgrifennu'r deunydd hwn, mae'r darparwyr presennol yn cynnwys y canlynol:

[BoB \(Box of Broadcast\)](#)

[ClickView](#)

[Planet eStream](#)

Gall tanysgrifwyr i'r gwasanaethau hyn gael gafael ar raglenni presennol S4C yn ogystal â rhaglenni o archif S4C ac archif y BBC a'u recordio. Maent hefyd yn cynnig amrywiol dechnolegau er mwyn helpu i ddefnyddio rhaglenni wrth addysgu ac fel rhan o waith cwrs ac i wella'r defnydd a wneir ohonynt. Er mwyn tanysgrifio i BoB National, rhaid i sefydliadau feddu ar drwydded ERA a bod yn aelod o BUFVC.

3. Hwb

Prosiect gan Lywodraeth Cymru yw Hwb sy'n anelu at gynyddu llythrennedd digidol yn yr ystafell ddosbarth. Mae gan Hwb gasgliad cenedlaethol o adnoddau digidol i ategu'r dysgu a'r addysgu i ddysgwyr rhwng 3 a 19 oed yng Nghymru, sef y Storfa Genedlaethol ar gyfer Cynnwys Digidol.

Mae S4C yn cyfrannu at y Storfa.

I gael rhagor o wybodaeth am Hwb, ewch i:-

<http://hwb.wales.gov.uk/about>

4. Into Film Cymru

Mae Into Film Cymru yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau eraill ledled Cymru i roi ei raglen ar waith sy'n helpu i ddatblygu llythrennedd a diddordeb diwylliannol ymhlith plant ysgol yng Nghymru drwy wyluo ac adolygu ffilmiau. Mae S4C yn gweithio gydag Into Film Cymru i hwyluso'r defnydd o ffilmiau Cymraeg S4C fel rhan o'i gasgliad.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:-

<http://www.intofilm.org/cymru>

5. Coleg Cymraeg Cenedlaethol Cymru

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cyflwyno darlithoedd ar amrywiaeth o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn saith prifysgol yng Nghymru.

Mae'r amrywiaeth o gyrsiau Cymraeg sydd ar gael wedi ehangu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae S4C, mewn partneriaeth â'r Coleg, wedi dewis rhaglenni o'i harchif i ategu'r amrywiol gyrsiau academiaidd a gynigir. Bydd y rhaglenni hyn ar gael i ddarlithwyr a myfyrwyr drwy adran adnoddau gwefan y Coleg.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:-

<http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/amdanomni/beth/>

CLICIWCH YMA I GAEL FFURFLEN GAIS

SUT I GAEL GAFAEL AR GYNNWYS ARCHIF S4C A'I DDEFNYDDIO AT DDIBENION MASNACHOL

1. Anfonwch neges e-bost at CeisiadauArchif@s4c.cymru er mwyn cael ffurflen gais ar gyfer yr archif neu i ofyn am fanylion yn ymwneud â'r costau .
2. Noder os gall S4C ddyfarnu trwydded i chi, y bydd angen i chi lofnodi cytundeb trwydded a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i chi sicrhau'r holl gliriadau hawliau angenrheidiol.

SUT I GAEL GAFAEL AR GYNNWYS ARCHIF S4C A'I DDEFNYDDIO AT DDIBENION ANFASNACHOL

Gall pob math o sefydliad sy'n awyddus i ddefnyddio cynnwys S4C am lawer o wahanol resymau mewn sawl gwahanol ffordd gyflwyno cais i ddefnyddio rhaglenni neu glipiau S4C at ddibenion anfasnachol. Er mwyn i ni allu ystyried eich cais, bydd angen i chi gyflwyno manylion pa ddeunydd sydd ei angen arnoch gan S4C a pham.

CLICIWCH YMA I GAEL FFURFLEN GAIS AR GYFER YR ARCHIF AT DDIBENION ANFASNACHOL

Os gall S4C gytuno i ryddhau deunydd i chi², byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ymgymryd â'r dasg o glirio'r hawliau yn y deunydd hwnnw ar gyfer eich defnydd arfaethedig.

Cyn cyflwyno eich Ffurflen Gais ar gyfer yr Archif, dylech ddarllen yr adran hon yn llawn yn ogystal â nodiadau S4C am glirio hawliau (**AR GAEL YMA**) er mwyn sicrhau eich bod yn deall y sefyllfa yn llawn.

1. Sgrinio Rhaglenni S4C gan Grwpiau Cymunedol, Sefydliadau nad ydynt yn Sefydliadau Darlledu a Sinemâu Annibynnol

² Noder y gall fod rhesymau dilys pam na fydd S4C o bosibl yn gallu rhyddhau deunydd i chi - efallai nad S4C fydd perchennog yr hawliau perthnasol sydd eu hangen arnoch neu efallai na fydd y deunydd yn addas ar gyfer y defnydd/cynulleidfa arfaethedig.

a. Sgrinio rhaglenni/ffilmiau cyfan mewn modd "theatrig"

i. Clirio ar gyfer defnydd theatrig

Bydd angen i chi ddeall cost clirio hawliau a'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â hynny.

CLICIWCH YMA I DDARLLEN AM GLIRIO HAWLIAU

ii. Cytundeb Cynghrair y Perfformwyr (PAA)

Os ydych yn lleoliad annibynnol neu'n grŵp cymunedol sy'n bwriadu cynnal "digwyddiad sgrinio theatrig" (h.y. digwyddiad sgrinio cyhoeddus lle y codir ffi fynediad) o un o ffilmiau neu raglenni S4C, ar yr amod y gallwch fodloni rhai meini prawf penodol, mae'n bosibl y gallwch ddibynnu ar y PAA i ganiatáu'r hawliau.

Mae'r pedwar maen prawf hanfodol fel a ganlyn:

- Rhaid cynnal y digwyddiad sgrinio at ddibenion addysgol/diwylliannol yn bennaf ac nid fel digwyddiad sgrinio masnachol yn unig (gofynnir i chi ddarparu cyd-destun sgrinio er mwyn profi hyn. Ni ddylech fod yn rhan o gadwyn fasnachol fawr ond yn sinema neu ganolfan gelfyddydol gwirioneddol annibynnol/grŵp cymunedol ac ati).
- Rhaid i chi gynnig rhai consesiynau penodol (i'w hysbysebu yn y Swyddfa Docynnau) i'r tair undeb sy'n gysylltiedig â PAA: Equity/MU/Urdd yr Awduron. 25% fel canllaw.
- Dim ond dau berfformiad o unrhyw deitl unigol a ganiateir yn yr un lleoliad o fewn cyfnod o ddeuddeg mis.
- Rhaid eich bod yn codi ffi.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r BFI (matthew.harle@bfi.org.uk) a gofynnwch p'un a allwch ddibynnu ar Gytundeb Cynghrair y Perfformwyr. Os hoffech wneud cais am drwydded PAA, sicrhewch bod eich e-bost yn cynnwys manylion llawn am y rhaglen yr hoffech ei sgrinio (dyddiadau darlledu a phenodau), dyddiad sgrinio, lleoliad a pharagraff o destun yn disgrifio cyd-destun y sgrinio a'i natur di-elw.

Mae'r PAA yn trwyddedu cynyrchiadau a gynhyrchwyd yn y Deyrnas Unedig yn unig.

Noder, boed y digwyddiad sgrinio yn rhan o gylich gwaith y PPA neu beidio, os bydd hawlfraint y rhaglen neu'r ffilm yn eiddo i S4C, bydd angen i S4C roi caniatâd i'w defnyddio. Cyn gwneud hyn, bydd angen i S4C ystyried y canlynol:-

- A. perchenogaeth y rhaglen (mae llawer o raglenni diweddar wedi'u trwyddedu i S4C yn unig ac maent mewn gwirionedd yn eiddo i sefydliadau cynhyrchu);
- B. y math o ddigwyddiad, y math o sefydliad sy'n gwneud y cais a'r cyd-destun;
- C. addasrwydd y rhaglen ar gyfer y gynulleidfa arfaethedig;
- CH. p'un a oes gan S4C gopi o'r rhaglen ar fformat addas.

Ceidw S4C yr hawl hefyd i godi ffi am y drwydded hawlfraint.

Os bydd S4C yn trwyddedu rhaglen i chi, bydd yn gofyn i chi lofnodi cytundeb trwydded cyn rhyddhau copi o'r ffilm.

b. Sgrinio rhaglenni neu ffilmiau cyfan mewn modd "An-theatrig"

Wrth benderfynu p'un a ddylid rhyddhau rhaglen i'w sgrinio mewn modd an-theatrig (h.y. digwyddiad sgrinio i'r cyhoedd lle na chodir ffi fynediad), bydd angen i S4C ystyried y pwyntiau a restrir yn A i CH uchod fel man lleiaf.

Cysylltwch â CeisiadauArchif@s4c.cymru am fanylion yn ymwneud â'r costau.

Noder os bydd S4C yn cytuno i'r drwydded, y gofynnir i chi lofnodi cytundeb trwydded byr yn nodi o dan ba delerau y mae S4C wedi cytuno i drwyddedu'r rhaglen i chi. Bydd y drwydded yn pennu taw chi fydd yn gyfrifol am sicrhau unrhyw gliriadau hawliau.

CLICIWCH YMA I DDARLLEN AM GLIRIO HAWLIAU

Deunydd Eisteddfod Genedlaethol S4C - COPI

Caiff archif deledu Eisteddfod Genedlaethol Cymru o 1999 ei chadw yn Archif Sgrîn a Sain Genedlaethol Cymru. Gall y rheini sydd wedi'u cofrestru fel darllenwyr yr Archif hon ddod i wyllo'r deunydd yn y Llyfrgell Genedlaethol. Gall cystadleuwyr, perfformwyr, aelodau o deulu a ffrindiau brynu copïau o gystadlaethau a seremonïau at ddefnydd preifat yn unig.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: copi@llgc.org.uk

2. Ffilmiau S4C ar Archif Cyfryngau ('Mediatheque') BFI

Mewngofnodwch ar orsaf wyllo a dewiswch o blith casgliad o ffilmiau a rhaglenni teledu, yn rhad ac am ddim, gan gynnwys detholiad o raglenni S4C.

Mae Archif Cyfryngau cyntaf y BFI yng Nghymru wedi'i lleoli yn Llyfrgell Wrecsam.

<http://www.bfi.org.uk/archive-collections/introduction-bfi-collections/bfi-mediatheques>

3. Rhaglenni S4C drwy Ddosbarthwyr Masnachol

Os yw rhaglen wedi'i rhyddhau'n fasnachol, mae gan adwerthwyr ar-lein gyflenwad o amrywiaeth o raglenni a deunydd archif ar ffurf CD, VHS a DVD. Cysylltwch ag adwerthwyr DVDs Cymraeg a/neu cysylltwch â'r cwmni cynhyrchu a gynhyrchodd y rhaglen. Mae rhai rhaglenni wedi eu trwyddedu ar ran S4C gan Sky Vision. Gweler <https://skyvision.sky.com/Search?page=1&PageSize=32&Term=s4c> am fanylion am y teitlau hyn. Cysylltwch â CeisiadauArchif@s4c.cymru am fanylion cyswllt yn Sky Vision.

SUT I GAEL GAFAEL AR RAGLENNI A CHYNNWYS PRESENNOL S4C

Mae S4C bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o gyflwyno ein harchif drwy fentrau mewnol neu bartneriaethau allanol. Rydym yn ychwanegu at y rhestr hon yn barhaus wrth i ni fedru cyflwyno ein rhaglenni presennol a'n deunydd archif mewn gwahanol ffyrdd.

1. Teledu S4C yng Nghymru a'r DU

Sut i dderbyn S4C:-

<http://www.s4c.cymru/cy/gwasanaethau-mynediad/page/5890/sut-i-dderbyn-s4c-digidol/>

2. S4C ar Alw ar Wefan S4C

Gwylwch ein rhaglenni ar alw am 35 diwrnod ar ôl iddynt gael eu darlledu am y tro cyntaf.

http://www.s4c.cymru/clic/c_index.shtml

3. S4C ar BBC iPlayer

Mae rhywfaint o gynnwys S4C bellach ar gael ar BBC iPlayer. Ewch i "Channels" ar hafan iPlayer (gweler yr URL isod) a dewiswch 'S4C'. Gallwch hefyd wyllo S4C drwy BBC iPlayer ar eich consol gemau.

<http://www.bbc.co.uk/iplayer>

4. S4C ar You View

Gwylwch ein rhaglenni'n fyw ac ar alw.

<http://www.youview.com/>

5. S4C ar TV Player

Gellir gweld ein rhaglenni drwy lawrlwytho'r ap hwn am ddim neu'n fyw drwy tvplayer.com

<http://tvplayer.com/>

6. S4C ar TV Catch Up

Gellir gwyllo ein rhaglenni'n fyw drwy TV Catch Up.

<http://tvcatchup.com/>

7. Clipiau S4C ar YouTube

<https://www.youtube.com/channel/UCSVIkpTts9Oox1hxAOwErlg>

8. Rhaglenni S4C ar Gael gan Wneuthurwyr Rhaglenni

Mae'r hawliau sy'n gysylltiedig â llawer o raglenni S4C yn eiddo i'r cynhyrchydd annibynnol a greodd y rhaglen ar gyfer S4C. Yn ddarostyngedig i delerau'r cytundeb comisiynu ag S4C, yn aml gellir trwyddedu rhaglenni S4C yn uniongyrchol gan y cynhyrchydd annibynnol a wnaeth y rhaglenni hynny.

HAWLIAU A CHLIRIO HAWLIAU

1. Beth yw "hawliau"?

Pan fydd unigolyn yn creu darn creadigol gwreiddiol, boed yn sgript, llyfr, rhaglen, darn o gelf neu berfformiad, mae gan y crewr yr hawl ecsgliwsif i reoli'r ffordd y caiff y darn hwnnw o waith ei ddefnyddio a'i drin gan eraill. Caiff perchenogaeth dros yr hawliau ei llywodraethu gan ddeddfwriaeth a chontractau.

Gall perchennog yr hawliau naill ai werthu ei hawliau cyfan yn y gwaith i brynwr neu gall ddyfarnu trwydded hawliau cyfyngedig i drwyddedai er mwyn galluogi'r trwyddedai i wneud rhai pethau penodol gyda'r darn hwnnw o waith.

Yn y rhan fwyaf o achosion, nid S4C yw perchennog yr holl hawliau sy'n gysylltiedig â'r rhaglenni a ddarlledir ar y sianel. Mae S4C yn prynu trwydded o becyn hawliau cyfyngedig yn ei rhaglenni er mwyn galluogi iddi ddarlledu'r rhaglenni a chyflwyno'r rhaglenni ar wasanaethau dal i fyny.

Oherwydd ystyriaethau ariannol, nid yw S4C yn prynu'r hawl i wneud fel y mynna gyda'r rhaglenni ac felly os bydd S4C yn awyddus i wneud unrhyw beth ac eithrio darlledu'r rhaglenni neu eu cyflwyno ar-lein, mae'n ofynnol i S4C dalu arian ychwanegol i'r bobl hynny sy'n berchen ar hawliau yn y gwaith creadigol a gynhwysir yn y rhaglenni hynny.

2. Clirio hawliau mewn rhaglen deledu

Mae "clirio" rhaglen yn golygu sicrhau eich bod wedi prynu neu gael yr hawliau gan yr holl berchenogion hawliau priodol i ddefnyddio'r gwaith creadigol yn y modd a fwriedir. Gall y broses hon fod yn gymhleth. Gall gynnwys rhai o'r camau canlynol, neu bob un ohonynt: cael gafael ar y gwaith papur ar gyfer y rhaglen, cadarnhau pa hawliau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, cadarnhau pa hawliau (os o gwbl) y gellir eu harfer heb unrhyw daliadau pellach, edrych ar gontractau unrhyw un y mae ffi ychwanegol yn ddyledus iddynt er mwyn canfod faint i'w dalu mewn perthynas â'r defnydd a fwriedir, olrhain manylion cyswllt ar gyfer deiliaid hawliau, weithiau ymgymryd â thrafodaethau pwrpasol a gwneud taliadau i unrhyw un y mae taliad yn ddyledus iddo.

Gan ddibynnu ar natur, oedran, cynnwys a chyflawnder y gwaith papur sydd ym meddiant S4C ar gyfer y rhaglen, gall rhai rhaglenni fod yn gyflym, yn hawdd ac yn rhad i'w clirio, tra gall eraill fod yn llafurus ac yn ddrud.

Nid oes unrhyw ddarlledwr teledu wedi llwyddo i sicrhau bod ei **holl** ddeunydd archif ar gael am ddim i'r cyhoedd eto.

3. Pwy yw'r perchennogion "hawliau"?

Mae amrywiaeth sylweddol o bobl yn berchen ar hawliau sy'n gysylltiedig â'r cyfraniadau a wneir ganddynt i raglenni S4C - mae cynhyrchwyr, awduron, ffotograffwyr, perchennogion clipiau archif, actorion, cerddorion, cantorion oll yn berchen ar hawliau o ryw fath os yw eu gwaith wedi'i gynnwys yn un o raglenni S4C.

Ceir cytundebau safonol o fewn y diwydiant a ddefnyddir yn aml. Yn aml, caiff y cytundebau hyn eu negodi gydag undebau (megis Equity - yr undeb i actorion) a byddant yn rhag-bennu pa hawliau y gellir eu prynu am faint o arian. Mae rhai cytundebau safonol yn caniatáu "pryniant uniongyrchol", sy'n golygu mai dim ond unwaith y telir cyfrannwr am ddefnyddio ei waith. Ni fydd llawer o gytundebau eraill yn rhoi'r hawl i brynu'n uniongyrchol - dim ond rhai hawliau penodol y bydd y ffi gychwynnol yn eu prynu a bydd rhagor o arian yn ddyledus i berchennog yr hawliau os caiff rhaglen ei hailadrodd neu ei gwerthu neu ei dangos mewn modd theatrig.

SUT I GLIRIO RHAGLEN FFEITHIOL:

(PWYSIG - NODER: DIM OND FEL CANLLAW BRAS IAWN Y DARPERIR Y WYBODAETH HON. NI FWRIEDIR IDDI FOD YN RHESTR GYNHWYSFAWR O'R HOLL GAMAU I'W CYMRYD WRTH GEISIO CLIRIO RHAGLEN).

Cam Un: Dod o hyd i'r gwaith papur ar gyfer y rhaglen

Fel arfer, caiff ffurflen "Rhoglen fel y'i Cwblhawyd" ei chwblhau gan y Cynhyrhydd a'i chyflwyno gyda'r rhaglen. Bwriedir iddi ddarparu crynodeb cyflawn o holl wahanol elfennau'r rhaglen (gan gynnwys gwaith hawlfraint). Gall ansawdd y wybodaeth ar y ffurflen hon amrywio ac weithiau, er enghraifft os bydd y rhaglen yn hen iawn, ni ellir dod o hyd i'r ffurflen hon.

Cam Dau: Gwylio'r rhaglen o'r dechrau i'r diwedd

Efallai na fydd angen gwneud hyn os bydd ansawdd y wybodaeth ar y ffurflen uchod yn dda iawn, ond mae'n aml yn ddoeth gan mai dyma'r ffordd orau o gadarnhau pa ddeunydd hawlfraint y mae'r rhaglen yn ei gynnwys. Gall fod gwybodaeth ddefnyddiol yn y credydau hefyd (e.e. "gyda diolch i" dŷ archif sydd wedi darparu darnau o ffilm/ffotograffau).

Os na fydd unrhyw waith papur ar gael ar gyfer y rhaglen, bydd angen i chi wylio'r rhaglen er mwyn creu eich ffurflen "Rhoglen fel y'i Cwblhawyd" eich hun ac er mwyn gwybod pa elfennau o'r rhaglen y bydd angen eu clirio.

Cam Tri: Cadarnhau pwy sy'n berchen ar hawlfraint y rhaglen ei hun

Mae'n bosibl mai'r Cynhyrhydd, S4C neu 3^{ydd} parti fydd yn berchen ar hawlfraint y rhaglen ei hun. Dim ond ar gyfer rhaglenni y mae'n berchen arnynt y gall S4C ddyfarnu hawliau. Hyd yn oed os taw S4C sy'n berchen ar yr hawliau yn y rhaglen, mae'n bosibl y bydd taliad yn ddyledus i'r cynhyrhydd os bydd eich defnydd o'r rhaglen yn cynhyrchu refeniw.

Cam Pedwar: Clirio'r "deunydd archif" a gynhwysir yn y rhaglen

Bydd angen i chi gysylltu â pherchenogion hawliau sy'n gysylltiedig ag unrhyw glipiau, ffotograffau, gwaith celf, dyfyniadau o lyfrau, mapiau neu ddarluniadau er mwyn cael caniatâd ganddynt i chi ddefnyddio eu gwaith yn y modd a gynigir gennych (gan gymryd yn ganiataol bod y gwaith yn destun hawlfraint o hyd ac nad oes un o'r eithriadau hawlfraint yn berthnasol i'ch defnydd o'r gwaith).

Weithiau mae'r broses hon yn syml (neges e-bost syml at dŷ archif sydd â chyfraddau penodedig a bennwyd ymlaen llaw) ond weithiau bydd angen cryn dipyn o waith ymchwil er mwyn ceisio dod o hyd i berchenogion hawliau. Gall perchennog yr hawliau fod dramor, gall fod wedi marw neu gall fod wedi gwerthu ei hawliau i rywun arall. Gall fod angen i chi negodi ffi glirio gyda pherchennog yr hawliau.

Os na ellir dod o hyd i berchennog yr hawliau, gallwch wneud cais am drwydded i ddefnyddio Gwaith Amddifad (gweler <https://www.gov.uk/government/publications/orphan-works-overview-for-applicants>) neu neilltuo swm o arian ar sail "aros am hawliad" - h.y. er mwyn talu perchennog yr hawliau os daw'n hysbys yn ddiweddarach.

Cam Pump: Clirio cyfraniad y cyflwynydd

Yn aml, bydd cyfraniad cyflwynydd wedi'i "brynu'n llwyr", felly ni fydd angen gwneud unrhyw daliadau.

Cam Chwch: Clirio'r gerddoriaeth

Bydd y Ffurflen Cofnodi Cerddoriaeth yn nodi pa fath o gerddoriaeth y mae'r rhaglen yn ei chynnwys. Gall fod yn gerddoriaeth fasnachol a gomisiynwyd yn arbennig neu'n gerddoriaeth lyfrgell. Bydd angen i chi gysylltu â'r gymdeithas gasglu briodol (PRS, MCPS, PPL), egluro'r defnydd a fwriedir o'r gerddoriaeth a chytuno ar drwydded. Efallai y bydd agen i chi dalu Undeb y Cerddorion er mwyn clirio'r prif gerddoriaeth.

Cam Saith: Clirio popeth arall

Dim ond cyfraniadau archif, cerddoriaeth a chyfraniad cyflwynydd y mae'r rhan fwyaf o raglenni ffeithiol yn eu cynnwys. Fodd bynnag, gall fod taliadau darnau yn ddyledus hefyd i berfformwyr achlysurol mewn darnau. Gall fod Hawliau Fformat neu hawliau cymeriadau y bydd angen eu clirio.

SUT I GLIRIO DRAMA/COMEDI

Cam Un: Dod o hyd i'r gwaith papur ar gyfer y rhaglen

Fel arfer, caiff ffurflen "Rhaglen fel y'i Cwblhawyd" ei chwblhau gan y Cynhyrchydd a'i chyflwyno gyda'r rhaglen i'r darlledwr. Bwriedir iddi ddarparu crynodeb cyflawn o'r holl wahanol elfennau a gynhwysir yn y rhaglen (gan gynnwys gwaith hawlfraint). Gall ansawdd y wybodaeth ar y ffurflen hon amrywio ac weithiau (er enghraifft os bydd y rhaglen yn hen iawn), ni ellir dod o hyd i'r ffurflen hon.

Cam Dau: Gwyllo'r rhaglen o'r dechrau i'r diwedd

Fel ar gyfer rhaglenni Ffeithiol, efallai na fydd angen gwneud hyn os bydd ansawdd y wybodaeth ar y ffurflen uchod yn dda, ond mae'n aml yn ddoeth gan mai dyma'r ffordd orau o gadarnhau pa ddeunydd hawlfraint y mae'r rhaglen yn ei gynnwys. Gall fod gwybodaeth ddefnyddiol yn y credydau hefyd.

Os na fydd unrhyw waith papur ar gael ar gyfer y rhaglen, bydd angen i chi wyllo'r rhaglen er mwyn creu eich ffurflen "Rhaglen fel y'i Cwblhawyd" eich hun ac er mwyn gwybod pa elfennau o'r rhaglen y bydd angen eu clirio.

Cam Tri: Cadarnhau pwy sy'n berchen ar hawlfraint y rhaglen ei hun

Mae'n bosibl mai'r Cynhyrchydd, S4C neu 3^{ydd} parti fydd yn berchen ar hawlfraint y rhaglen ei hun. Dim ond ar gyfer rhaglenni y mae'n berchen arnynt y gall S4C ddyfarnu hawliau. Hyd yn oed os taw S4C sy'n berchen ar yr hawliau yn y rhaglen, mae'n bosibl y bydd taliad yn ddyledus i'r cynhyrchydd os bydd eich defnydd o'r rhaglen yn cynhyrchu refeniw.

Cam Pedwar: Clirio unrhyw hawliau sy'n gysylltiedig â deunydd sylfaenol neu ffynhonnell

Mae'n bosibl y bydd y sript wedi'i chreu o nofel neu ddrama wreiddiol y mae hawlfraint ar ei chyfer o hyd. Mae'n bosibl y bydd angen i chi gael caniatâd gan yr awdur i ddefnyddio'r rhaglen ac y bydd yn rhaid i chi dalu ffi.

Cam Pump: Clirio unrhyw hawliau sy'n gysylltiedig â'r sript

Yn aml, bydd awduron sgriptiau yn gweithio'n unol â contract a negodwyd gan Urdd Awduron Prydain Fawr (WGGB). Gan gadarnhau yn gyntaf ym mha flwyddyn y cynhyrchwyd y rhaglen, bydd angen i chi wirio pa un o contractau'r WGGB a ddefnyddiwyd fel contract ar gyfer yr awdur. Wedyn, gallwch edrych ar delerau'r cytundeb hwn er mwyn canfod beth y dylid ei dalu i'r awdur am ddefnyddio'r rhaglen.

Cam Chwech: Clirio'r prif gast

Bydd actorion mewn rhaglenni teledu yn gweithio'n unol â contract o dan delerau a negodwyd gan Equity, yr undeb i actorion. Gan gadarnhau yn gyntaf ym mha flwyddyn y cynhyrchwyd y rhaglen, bydd angen i chi wirio pa un o contractau Equity a ddefnyddiwyd fel contract ar gyfer y prif gast. Wedyn, gallwch edrych ar delerau'r cytundeb hwn er mwyn canfod beth y dylid ei dalu i'r prif gast am ddefnyddio'r rhaglen.

Cam Saith: Clirio aelodau cefndir y cast

Bydd aelodau cefndir y cast mewn rhaglenni teledu yn gweithio'n unol â contract o dan delerau a negodwyd gan Equity, yr undeb i actorion. Gan gadarnhau yn gyntaf ym mha flwyddyn y cynhyrchwyd y rhaglen, bydd angen i chi wirio pa un o contractau Equity a ddefnyddiwyd fel contract ar gyfer yr artistiaid ategol. Wedyn, gallwch edrych ar delerau'r cytundeb hwn er mwyn canfod beth y dylid ei dalu iddynt am ddefnyddio'r rhaglen.

Cam Wyth: Clirio'r gerddoriaeth

Bydd y Ffurflen Cofnodi Cerddoriaeth yn nodi pa fath o gerddoriaeth y mae'r rhaglen yn ei chynnwys. Gall fod yn gerddoriaeth fasnachol a gomisiynwyd yn arbennig neu'n gerddoriaeth lyfrgell. Bydd angen i chi gysylltu â'r gymdeithas gasglu briodol (PRS, MCPS, PPL), egluro'r defnydd a fwriedir o'r gerddoriaeth a chytuno ar drwydded. Efallai y bydd angen i chi dalu Undeb y Cerddorion er mwyn clirio'r prif gerddoriaeth.

Cam Naw: Clirio unrhyw ddeunydd archif

Bydd angen i chi gysylltu â pherchenogion hawliau sy'n gysylltiedig ag unrhyw glipiau, ffotograffau, gwaith celf, dyfyniadau o lyfrau, mapiau neu ddarluniadau er mwyn cael caniatâd ganddynt i chi ddefnyddio eu gwaith yn y modd a gynigir gennych (gan gymryd yn ganiataol bod y gwaith yn destun hawlfraint o hyd ac nad oes un o'r eithriadau hawlfraint yn berthnasol i'ch defnydd o'r gwaith).

Weithiau mae'r broses hon yn syml (neges e-bost syml at dŷ archif sydd â chyfraddau penodedig a bennwyd ymlaen llaw) ond weithiau bydd angen cryn dipyn o waith ymchwil er mwyn ceisio dod o hyd i berchenogion hawliau. Gall perchennog yr hawliau fod dramor, gall fod wedi marw neu gall fod wedi gwerthu ei hawliau i rywun arall. Gall fod angen i chi negodi ffi glirio gyda perchennog yr hawliau.

Os na ellir dod o hyd i perchennog yr hawliau, gallwch wneud cais am drwydded i ddefnyddio Gwaith Amddifad (gweler

<https://www.gov.uk/government/publications/orphan-works-overview-for-applicants>)

neu neilltuo swm o arian ar sail "aros am hawliad" - h.y. er mwyn talu perchennog yr hawliau os daw'n hysbys yn ddiweddarach.

Problemau y gallwch ddod ar eu traws wrth geisio clirio rhaglen:-

Ni ellir olrhain perchennogion yr hawliau;
Perchennogion yr hawliau yn gwrthod dyfarnu hawliau;
Mae'r rhaglen yn hen ac ni ellir olrhain y gwaith papur neu'r contractau gyda chyfranwyr;
Mae'r rhaglen yn hen ac mae ansawdd neu fformat y recordiad wedi dyddio;
Gall cynnwys y rhaglen fod yn anaddas o ran safonau chwaeth a gwedduster modern;
Gall cynnwys y rhaglen fod yn anaddas ar gyfer y gynulleidfa arfaethedig;
Gall S4C fod yn awyddus i amserlennu'r rhaglen ei hun ac felly'n awyddus i osgoi cael effaith andwyol ar werth defnydd S4C o'r rhaglen.

Beth os na ellir olrhain yr unigolyn â'r 'hawliau'?

Weithiau, ni ellir dod o hyd i berchennogion hawliau. Gall ceisio dod o hyd iddynt fod yn broses gymharol fanwl, am ein bod yn awyddus i ddod o hyd iddynt, ein bod am gael caniatâd ganddynt a'n bod am dalu'r symiau sy'n ddyledus iddynt.

A fydd pobl yn gwrthod dyfarnu hawliau weithiau?

Mae hyn yn digwydd o bryd i'w gilydd. Nid y rheswm yw bod rhywun yn gofyn am swm mawr o arian bob tro. Mewn gwirionedd, mae'n digwydd yn amlach mewn perthynas ag uniondeb artistig. Gall fod yn awdur, er enghraifft, sydd bellach yn adnabyddus iawn ac sy'n ysgrifennu cynnwys o'r radd flaenaf, nad yw mewn gwirionedd yn awyddus i'w gyhoedd weld unwaith eto y darn o waith diniwed hwnnw a ysgrifennodd hanner canrif yn ôl. Ac mae ganddo'r hawl i wrthod, ac mae'n rhaid i ni barchu'r hawl honno i wrthod.

FFURFLEN GAIS AR GYFER ARCHIF S4C

Enw'r Sefydliad	
Enw'r Cais/Prosiect a disgrifiad o'r rhaglen	
Dyddiad y Cais	

Dyddiad y bydd angen y deunydd erbyn	
Manylion y deunydd archif sydd ei angen (dylech gynnwys rhif y rhaglen, dyddiad darlledu a chod amser os yw'n hysbys)	
Os nad yw'r uchod yn hysbys eto, pa waith ymchwil pellach sydd ei angen?	
A yw'r cais am raglen lawn?	
A yw'r cais am glip (nodwch fanylion penodol)?	
Ble bydd y deunydd ar gael? (Yn y DU yn unig? Yn rhyngwladol? Drwy ddigwyddiad sgrinio theatrig (h.y. digwyddiad sgrinio y codir ffi fynediad ar ei gyfer)? Drwy ddigwyddiad sgrinio an-theatrig (h.y. ni chodir unrhyw ffi fynediad)? Ar-lein:- Mewn amgylchedd caeëdig neu agored? Wedi'i ffrydio neu ar gael i'w lawrlwytho? Wedi'i ddarlledu neu ar gael ar alw?	
Os bydd y deunydd ar gael ar-lein, sut y caiff ei ddiogelu?	
Am ba hyd y bydd y deunydd ar gael?	
A fydd y deunydd ar gael ar sail gwasanaeth cyhoeddus 'am ddim' neu'n fasnachol? Rhowch fanylion.	

Y BROSES AR GYFER CYFLWYNO CAIS AM RAGLENNI A CHLIPIAU

Y camau i'w dilyn:

CAM UN:

Cadarnhau p'un a yw'r teitl rydych yn gobeithio ei drwyddedu wedi'i drwyddedu ar ran S4C gan Sky Vision. Ewch i <https://skyvision.sky.com/Search?page=1&PageSize=32&Term=s4c> i gael manylion y teitlau hynny. Cysylltwch â CeisiadauArchif@s4c.cymru am fanylion cyswllt yn Sky Vision.

Darllenwch y Canllawiau hyn yn llawn. Noder y gall ceisiadau am ddeunydd gymryd cryn amser i'w prosesu a'u cwblhau. Mae angen rhybudd o 4 wythnos o leiaf.

CAM DAU:

Anfonwch e-bost at CeisiadauArchif@s4c.cymru er mwyn derbyn Ffurflen Gais ar gyfer yr Archif.

CAM TRI:

Nodwch y clipiau neu'r rhaglen sydd ei hangen.

Os ydych yn gwneud cais i drwyddedu clip(iau), bydd angen i chi ddarparu manylion am y clip(iau) (gan gynnwys teitl y rhaglen, rhif y rhaglen, y dyddiad darlledu gwreiddiol a'r cod(au) amser) ar y Ffurflen Gais ar gyfer yr Archif.

Os ydych yn gwneud cais i drwyddedu rhaglen, bydd angen i chi ddarparu rhif y rhaglen, os yw'n hysbys, teitl y rhaglen a'i dyddiad darlledu.

Os na allwch wneud hyn, bydd angen i chi ddarparu disgrifiad manwl o gynnwys eich clip(iau) (e.e. manylion am yr actorion neu'r perfformwyr yn y clip, cerddoriaeth, deunydd 3^{ydd} parti) ar y Ffurflen Gais ar gyfer yr Archif.

Os bydd angen cyfleusterau gwylio arnoch neu os bydd angen i chi gynnal gwaith ymchwil yn S4C (neu os hoffech i aelod o staff S4C wneud hyn ar eich rhan (yn amodol ar argaeledd staff)), bydd S4C yn codi ffi briodol y cytunir arni gyda chi ymlaen llaw.

CAM PEDWAR:

Cwblhewch y Ffurflen Gais ar gyfer yr Archif gan nodi cymaint o wybodaeth â phosibl arni. Po fwyaf o wybodaeth y gallwch ei rhoi i ni ar y cychwyn, y mwyaf hwylus a chyflym y byddwn yn gallu ymdrin â'ch cais.

Noder fod angen i chi ddarparu gwybodaeth benodol a manwl ar y Ffurflen Gais ar gyfer yr Archif am eich defnydd arfaethedig o gynnwys S4C.

CAM PUMP:

Bydd S4C yn prosesu eich cais, yn cadarnhau a yw'r deunydd y gwnaethoch gais amdano ar gael ac yn ymchwilio i unrhyw hawliau neu faterion cydymffurfiaeth perthnasol.

Noder na fydd S4C bob amser mewn sefyllfa i ddyfarnu trwydded ar gyfer y deunydd y gwnaed cais amdano. Gall hyn fod am nad yw'n berchen ar yr hawliau angenrheidiol, oherwydd bod ansawdd y deunydd yn wael neu am ryw reswm arall. Os bydd y deunydd ar gael gan 3^{ydd} parti, bydd S4C yn helpu drwy eich rhoi mewn cysylltiad â'r sefydliad 3^{ydd} parti hwnnw lle y bo'n bosibl.

Os bydd S4C yn cytuno i ddyfarnu trwydded, byddwn yn rhoi Cytundeb Trwydded i chi y bydd yn ofynnol i chi ei lofnodi a'i ddychwelyd cyn y caiff y deunydd ei ryddhau i chi. Bydd y Cytundeb Trwydded yn dynodi ffi'r drwydded (wedi'i chyfrifo yn unol â cherdyn cyfraddau S4C) ynghyd â chostau trosglwyddo ac unrhyw gostau ategol (e.e. ar gyfer gwaith ymchwil).

Cysylltwch â CeisiadauArchif@s4c.cymru i ofyn am fanylion yn ymwneud â'r costau.

Noder y bydd telerau'r Drwydded yn ei gwneud yn ofynnol i chi ymgymryd â'r holl waith clirio hawliau angenrheidiol. Bydd S4C yn rhoi copïau o'r gwaith papur perthnasol i chi (os yw ar gael). Gall S4C neu ddeiliaid hawliau eraill hefyd ei gwneud yn ofynnol i chi gynnwys credyd priodol.

CAM CHWECH:

Ar ôl cael Cytundeb Trwydded wedi'i lofnodi, bydd S4C yn rhyddhau'r deunydd i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.